

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 18fed, Chwefror, 2019**

**PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng Hefin Martin  
Cyng. Alun Morris, Cyng. Michael Rayner, Cyng. John Owen, , Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones,

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 14eg Ionawr, 2019.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

1) **CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Cadarnhaodd y clerc fod Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Uchaf, Llanddoged wedi cwblhau'r gwaith o atgyweirio'r wal yn y maes parcio Cegin Wen a chanmolwyd ei waith taclus iawn. Derbyniodd y clerc anfoneb am £650 o bunnoedd gan Mr Williams am ei waith.

**Y BONT YM MHONT Y GARTH, MAENAN**

Dim diweddariad ar y Bont ym Mhont y Garth, Maenan.

**PARCIO GYFERBYN AR YSGOL**

Pasiwyd i'r clerc gysylltu gydag Adran Draffig unwaith eto ynglŷn â'r pryderon fod cerbydau yn parcio bob ochr i'r ffordd tu allan i Ysgol Gynradd Llanddoged ac yn achosi problemau i gerbydau eraill basio. Pryder fwyaf ydi sut mae cerbydau achosion brys yn gallu cael ffordd glir.

Nododd Cyng. Nerys Dobson y buasai yn codi'r mater yma yn y cyfarfod nesaf Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged..

**LLWYBR TRAMWY CYHOEDDUS NANT I PENCRIAG ARTHUR LLANDDOGED**

Derbyniwyd e-bost gan Madeline Raven a Michael Hammill perchnogion Pencraig Arthur Llanddoged gyda gwybodaeth eu bod wedi gwneud cais i Gyngor Conwy am 'Orchymyn Cau' ar gyfer dau ran o hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb gael eu defnyddio dros amser maith a sy'n croesi eu heiddo. Mae'r llwybrau tramwy yma yn dyddio yn ôl i ddechrau'r 20fed Ganrif pan gafodd Ffordd Trwyn Swch ei ddargyfeirio dros bont Pen y Groes. Mae hyn wedi ei ysgogi gan gŵyn a ffeiliwyd gyda'r Cyngor bod yr hawliau tramwy hyn yn cael eu rhwystro ar hyn o bryd i gael mynediad i gerbydau modur. Credai perchnogion Pencraig Arthur fod y gŵyn yn dod o bobl sydd am ddefnyddio'r hawliau tramwy hyn ar gyfer gyrru hamdden oddi ar y ffordd, boed trwy gerbydau 4x4 neu feiciau modur. Atodwyd dogfen gyda gwybodaeth i gyfiawnhau tynnu'r hawliau tramwy cyhoeddus hyn ynghyd a'u cais i Gyngor Conwy.

Derbyniodd M Raven ac M Hammill wybodaeth gan Gyngor Conwy mae eu camau cyntaf fyddai ymgynghori â Chyngor Cymuned Llanddoged a Maenan er mwyn penderfynu a oedd unrhyw wrthwynebiadau ar y lefel leol ac roeddent am roi gwybod i'r Cyngor Cymuned o flaen llaw eu bod wedi cychwyn y camau gweithredu hyn.

Trafodwyd aelodau y Cyngor y wybodeth uchod a phasiwyd i gefnogi cais M Raven a M Hammill, Pencraig Arthur i gael orchymun cau ar y ddwy ran o'r hawliau tramwy cyhoeddus yma ac roedd yr aelodau yn unfryd yn cytuno gyda'i sylwadau.

Awgrymir iddynt greu taflen i fynd o amgylch yr ardal i greu petiswn i gefnogi eu cais.

## **TARMACIO FFYRDD**

Cafwyd gwybodaeth gan Cyng. Austin Roberts fod yr Adran Ffyrdd yn bwriadu tarmacio dwy ffordd yn Llanddoged a Maenan yn y dyfodol agos.

Pasiwyd i ddewis y ffordd o'r Abbey heibio'r Felin Maenan fel un dewis a bydd y Cynghorwyr yn penderfynu ar yr ail ddewis yn y cyfarfodydd nesaf.

## **YMADAWIAD O'I SWYDD FEL CYNGHORYDD Y GYMUNED LLANDDOGED**

Cyhoeddodd Cyng. Michael Rayner ei fod yn rhoi gorau i'w swydd fel Cynghorydd y Gymuned Llanddoged yn y cyfarfod blynyddol nesaf mis Mai 2019. Bydd yn cysylltu gyda Chyngor Sir Conwy gyda'r wybodaeth yn yr wythnosau nesaf.

Nododd ei fod hefyd am greu arwydd 'maes parcio' i roi fyny yng Nghegin Wen, Llanddoged fel rhodd.

## **GOHEBIAETH**

- 1) Un Llais Cymru - Tal aelodaeth - £88 - pasiwyd i dalu'r tal aelodaeth am yn flwyddyn 2019/20.
- 2) Anfoneb gan E.L.Williams, Ty'n Gwern Uchaf, Llanddoged am atgyweirio'r wal ym maes parcio Cegin Wen, Llanddoged.
- 3) E-bost gan Elen Edwards Cyngor Sir Conwy - Cyfle Posibl ar gyfer Cysylltiadau TG gwell o fewn ein Cymunedau ble mae cyfarfodydd y Cyngor cymuned yn cael eu cynnal.

## **CYNNAL A CHADW**

- 1) Dwr yn hel ac yn achosi i'r ffordd godi rhwng Tŷ Gwyn a throeau i Belmont Llanddoged.
- 2) Angen arwydd newydd 'Ysgol' pob pen i'r pentref Llanddoged.
- 3) Angen arwydd newydd 'allt serth' ar allt Ffordd Tyrpeg Uchaf ym mhentref Llanddoged.
- 4) Angen clirio'r ffosydd o gwmpas y tarmac newydd ar ffordd o Gae Brychiad i bentref Llanddoged.
- 5) Lle pasio 'Layby' angen ei lanhau allt Pant Llin Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
- 6) Angen trwsio twll yn y ffordd wrth Maes Bach, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
- 7) Tyllau yn y ffordd o Hanner Ffordd hyd at Ysgol Maenan.
- 8) Tyllau yn y ffordd uwchben Wigfa, Maenan.
- 9) Angen 'sweeper' ar yr allt o'r Abbey i fyny at Ysgol Maenan.
- 10) Angen 'sweeper' ar allt Penrhwydfa, Maenan.
- 11) Tyllau yn y ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
- 12) Weiren BT wedi dod i lawr rhwng Tŷ Gwyn a throeau Belmont.
- 13) Angen tramacio y ffordd o'r Abbey heibio'r Y Felin, Maenan.

A470 - Clawdd gyferbyn a 'Bodnant Food Centre' angen ei dorri yn ôl.

A470 – Grid wedi suddo wrth Bryn Mai Cottage ger Plas Maenan, Maenan